Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd:	Gweithiwr Cymdeithasol
Rhif Adnabod Gwerthuso Swydd:	0360SS
Gradd:	9
Cyfadran:	Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran:	Gwasanaethau i Oedolion
Is-adran:	Hyrwyddo Annibyniaeth Tîm Anabledd Corfforol a Nam a'r Synhwyrau/Tîm Anabledd Dysgu
Lleoliad:	Ledled y Fwrdeistref Sirol
Yn atebol i:	Rheolwr Tîm

DIBEN Y SWYDD

Darparu gwasanaethau asesu a rheoli gofal i oedolion 18 oed ac hŷn sydd ag Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau/Anabledd Dysgu a ystyrir bod angen gofal a chymorth cymunedol arnyn nhw i gynyddu a chynnal eu hannibyniaeth ac urddas.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

Ymarfer yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

1. Asesiadau ac adolygiadau o ganlyniadau, risgiau ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.
2. Asesu a Rheoli Gofal
3. Gweithio amlddisgyblaethol.
4. Datblygu Gwasanaeth.
5. Dangos cymhwysedd proffesiynol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.
6. Rheoli a bod yn atebol, gyda goruchwyliaeth a chymorth, am eich ymarfer gwaith cymdeithasol eich hun.

PROFFIL MANWL O'R DASG

Paratoi ar gyfer a gweithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau, gofalwyr a chymunedau i asesu eu hanghenion a'u hamgylchiadau:

- Paratoi ar gyfer cyswllt a chyfranogiad gwaith cymdeithasol.
- Gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni eu canlyniadau nhw.
- Asesu anghenion ac opsiynau i argymell camau gweithredu.

Cynllunio, cynnal, adolygu a gwerthuso ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill:

- Ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng.

- Rhyngweithio ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau i gyflawni newid a datblygiad ac i wella cyfleoedd bywyd.
- Paratoi, cynhyrchu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau, cymunedau a chydweithwyr proffesiynol.
- Cynorthwyo datblygu rhwydweithiau i ddiwallu anghenion wedi'u hasesu a chanlyniadau cynlluniedig.
- Gweithio gyda grwpiau i hybu twf, datblygiad ac annibyniaeth unigolion.
- Mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n peri risg i unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.

Cynorthwyo unigolion i fynegi eu hanghenion, eu barn a'u hamgylchiadau:
- Eirioli gydag, ac ar ran, unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.
- Paratoi ar gyfer fforymau gwneud penderfyniadau a chymryd rhan ynddyn nhw.

Rheoli risg i unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau, cymunedau, eich hunain a chydweithwyr:
- Asesu a rheoli risgiau i unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.
- Asesu, lleihau a rheoli risg i'ch hunain a chydweithwyr.
- Bod yn atebol a chymryd cyfrifoldeb am eich iechyd a diogelwch eich hunain.

Rheoli a bod yn atebol, gyda goruchwyliaeth a chymorth, am eich ymarfer gwaith cymdeithasol eich hun o fewn eich sefydliad:
- Rheoli a bod yn atebol am eich gwaith eich hun.
- Cyfrannu at reoli adnoddau a gwasanaethau.
- Rheoli, cyflwyno a rhannu cofnodion ac adroddiadau.
- Gweithio o fewn timau, rhwydweithiau a systemau amlddisgyblaethol ac amlsefydliadol.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Cymryd rhan weithredol mewn goruchwyliaeth reolaidd a gwerthuso perfformiad blynyddol.
- Gweithio fel rhan o dîm a chyfrannu'n weithredol at y tîm hwnnw gan gynnwys datblygu a chynllunio tîm.

Dangos cymhwysedd proffesiynol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol; Ymchwilio, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio gwybodaeth gyfredol o ran arferion gwaith cymdeithasol gorau:
- Gweithio o fewn safonau ymarfer gwaith cymdeithasol wedi'u cytuno a sicrhau eich datblygiad proffesiynol eich hun.
- Rheoli materion moesegol, dilemâu a gwrthdaro cymhleth.
- Cyfrannu at hyrwyddo arferion gwaith cymdeithasol gorau.

PERTHNASOEDD GWEITHIO ALLWEDDOL

Rheolwr Tîm.
Uwch Weithiwr Cymdeithasol.
Cydweithwyr yn y Timau Anabledd Dysgu ac Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
Defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
Y cyhoedd.
Timau Asesu a Rheoli Gofal Gwasanaethau i Oedolion.
Gwasanaethau i Oedolion, maes Gwasanaeth Hyrwyddo Annibyniaeth.
Timau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a Chomisiynu
Cydweithwyr iechyd, yn enwedig Nyrsys Cymunedol a Nyrsys Seiciatrig Cymunedol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hynny yn y gymuned neu ofal preswyl.
Cydweithio â thimau iechyd perthnasol pryd bynnag mae'n bosibl. Er enghraifft, tîm iechyd Anabledd Dysgu; Aseswyr Nyrsio yn Nhîm Gofal Cymhleth y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer adolygiadau sy'n cael eu cynnal mewn Cartrefi Nyrsio.

Darparwyr Gofal a darparwyr gwasanaeth eraill.
Asiantaethau yn y sector gwirfoddol.
Rhanddeiliaid allweddol.

GWERTHOEDD AC YMDDYGIADAU

Atebolrwydd
1. **Cymryd cyfrifoldeb am eich gwaith** – Cymryd cyfrifoldeb am eich penderfyniadau, tasgau a chanlyniadau.
2. **Cyflawni eich ymrwymiadau** – Cwrdd â therfynau amser, anrhydeddu addewidion, a rhoi gwybod i'ch tîm chi yn gynnar os nad ydych chi'n gallu cyflawni rhywbeth.
3. **Bod yn onest am wallau** – Os ydych chi'n gwneud gwall, mae eisiau ei gydnabod yn gyflym a chymryd camau i'w wneud yn iawn a dysgu ohono.

Ymddiriedaeth
1. **Bod yn onest ac yn dryloyw** – Cyfathrebu'n agored, dweud y gwir, a pheidio â chuddio camgymeriadau na gwybodaeth bwysig.
2. **Gweithredu gydag uniondeb** – Gwneud y peth iawn, hyd yn oed pan nad oes neb yn gwylio, a thrin pawb gyda thegwch a pharch.
3. **Gwrando'n weithredol ac yn barchus** – Dangos eich bod chi'n gwerthfawrogi safbwyntiau eraill drwy roi eich sylw llawn, gofyn cwestiynau, ac ymateb yn feddylgar.

Parch
1. **Trin pawb gyda chwrteisi** –Gweithredu'n gwrtais, defnyddio iaith barchus, a dangos caredigrwydd yn eich rhyngweithiadau dyddiol.
2. **Gwerthfawrogi gwahaniaethau** – Gwerthfawrogi amrywiaeth, gwahanol syniadau a gwahanol safbwyntiau.
3. **Cydnabod cyfraniadau eraill** – Rhoi clod lle mae'n ddyledus a dangos eich bod chi'n gwerthfawrogi ymdrechion eraill.

Gonestrwydd
1. **Cyfathrebu'n glir ac yn uniongyrchol** – Bod yn glir, yn gryno ac yn agored gyda'ch iaith chi.
2. **Dweud eich dweud am bryderon neu ymddygiad anfoesegol** – Rhoi gwybod am faterion mewn ffordd barchus a chyfrifol.
3. **Rhoi adborth gonest yn barchus** – Rhannu adborth adeiladol sy'n onest, yn ddefnyddiol, ac wedi'i anelu at wella.

Cydweithio
1. **Rhannu gwybodaeth a syniadau yn agored** – Cadw cydweithwyr yn hysbys, cydweithio'n effeithiol a chyfrannu gwybodaeth sy'n helpu'r sefydliad i lwyddo.
2. **Cynnig help a chefnogaeth** – Camu i'r adwy pan fydd eraill angen help a chynnig eich amser a'ch sgiliau chi.
3. **Datrys gwrthdaro yn adeiladol** – Mynd i'r afael ag anghytundebau yn dawel, gwrando ar bob ochr, a chanolbwyntio ar atebion.
4. **Dathlu llwyddiannau tîm** – Cydnabod buddugoliaethau a chydnabod cyfraniadau eraill.

CYFRIFOLDEBAU AM STAFF

Teitlau Swyddi, Niferoedd a Lefel Atebolrwydd

Gall hyn hefyd gynnwys mentora a goruchwylio myfyrwyr a staff sydd newydd eu penodi.

CYFRIFOLDEBAU AM ADNODDAU

Cyllid, Peiriannau, Adeiladau neu Gyfarpar

Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth
Ffôn symudol

Systemau Data

Systemau Technoleg Gwybodaeth gan gynnwys Microsoft a chronfa ddata SWIFT

AMGYLCHEDD GWAITH

Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn swyddfa cynllun agored gyda'i weithfan ei hun, gan gynnwys ffôn, cyfarpar cyfrifiadurol, goleuadau uwchfioled.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio ar ei ben ei hun yn y gymuned gan fynd i gartrefi defnyddwyr y gwasanaethau a defnyddio adnoddau'r gymuned.

GOFYNION YCHWANEGOL

Cyfyngiad Gwleidyddol:	Nac oes
Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:	Uwch
Gwiriad y Rhestr Wahardd:	Oedolion
Asesiad Meddygol Sylfaenol Cyn Cyflogaeth:	Nac oes
Cofrestru:	Wedi cofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

CYFRIFOLDEBAU CYFUNDREFNOL

Yn deall ac yn gallu dangos egwyddorion cyfrinachedd.

Yn gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, gan gynnwys cydnabod y ddyletswydd i ddiogelu oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Yn deall ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau'r Cyngor.

Yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus.

Mae'r dyletswyddau a chyfrifoldebau yn anodd eu diffinio'n fanwl a gallen nhw amrywio o dro i dro heb newid natur gyffredinol y dyletswyddau neu lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Felly, mae disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, ar yr amod na fydd natur gyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau yn newid.

MANYLEB Y PERSON

	HANFODOL	DYMUNOL
CYMWYSTERAU	Diploma/Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster rhagflaenol Cwblhau'r Rhaglen Cydgrynhoi Ymarfer yn llwyddiannus o fewn y tair blynedd gyntaf o ymarfer (os oeddech chi wedi cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016)	Gwobr Ôl-gymhwysol 1 (PQ1)
GWYBODAETH	Gwybodaeth am fframwaith deddfwriaethol gofal cymdeithasol e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Iechyd Meddwl, Mesur Iechyd Meddwl, Mesur Gofalwyr, ac ati Systemau, cronfeydd data a rhaglenni TG, h.y. WCCIS, Outlook/Microsoft Office Gwybodaeth am Asesu Integredig Gwybodaeth am Asesu a Rheoli Gofal Gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddfwriaeth Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol	Gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag anableddau corfforol, meddyliol, synhwyrol a/neu anableddau dysgu Gwybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus Gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol
SGILIAU	Y gallu i flaenoriaethu gwaith, gwneud penderfyniadau ar ofynion sy'n cystadlu a chymryd cyfrifoldeb amdanyn nhw Dealltwriaeth o anghenion dysgu, corfforol ac emosiynol Oedolion sy'n Agored i Niwed gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau/anabledd dysgu Y gallu i weithio'n adeiladol gyda gweithwyr proffesiynol eraill Y gallu i asesu a dyfeisio cynlluniau gofal mewn modd creadigol	Y gallu i hwyluso a threfnu cyfarfodydd Sgiliau Cymraeg

	HANFODOL	DYMUNOL
	Y gallu i weithio mewn partneriaeth ag eraill Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) Gweithio fel rhan o dîm a chyfrannu at ddatblygiad tîm Y gallu i weithio ar eich menter eich hun pan fo angen	
PROFIAD	Profiad o gynllunio gofal ac asesu Profiad o fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaeth Profiad o weithio mewn lleoliad cymunedol	Profiad o weithio gydag oedolion sydd ag anableddau dysgu corfforol, meddyliol a synhwyrol
ARALL	Wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac annibyniaeth Ymrwymiad a brwdfrydedd tuag at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Y gallu i weithio'n hyblyg o fewn gofynion y swydd gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol Wedi cofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu reoleiddwyr cyfatebol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon Trwydded yrru lawn Categori B (Ceir) y DU a defnyddio cerbyd modur wedi'i yswirio at ddibenion busnes/gwaith i deithio ledled y Fwrdeistref Sirol i fynd i gyfarfodydd ac ymweld â chleientiaid	

AWDURDODIAD ADNODDAU DYNOL

SWYDDOG ADNODDAU DYNOL:	DYDDIAD:
Sarah Wright	23/01/2019
Sarah Wright	09/12/2019